O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2012 Rhif 23 (Cy. 9)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A4060 (Pentre-bach, Merthyr Tudful) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012

*Gwnaed* *6 Ionawr 2012*

*Yn dod i rym* *15 Ionawr 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd (yr A4060) Man i'r Dwyrain Abercynon – Man i'r Dwyrain o Ddowlais (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984[(1)] a phob pŵer galluogi arall[(2)], yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 15 Ionawr 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4060 (Pentre-bach, Merthyr Tudful) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn ar 19:00 o'r gloch ar 15 Ionawr 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi cael eu tynnu oddi yno;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau o'r gefnffordd ym Mhentre-bach ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

**4.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 6 Ionawr 2012

***G R Morgan***
**G MORGAN**
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) (p.26), ac Atodlen 1 iddi.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLEN

i) Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt wrth ei chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Pentre-bach i bwynt wrth ei chyffordd â Chyffordd Cwm Blacks, gan gynnwys y ffordd fynediad o Gylchfan Parc Busnes Triangle i Barc Busnes Triangle.

ii) Hyd y cyfan o gerbytffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt wrth ei chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Mountain Hare i bwynt wrth ei chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Pentre-bach.